



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA)

Proses a Gweithdrefnau Wrth Gefn

Diweddarwyd Medi 2023 (f.8)


Proses a Gweithdrefnau wrth Gefn Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa (PDPA)

Cyflwyniad

Mae nifer o systemau cymorth ar waith ym Mhartneriaeth Dysgu Proffesiynol yr Athrofa (PDPA) a nodir y 'tîm o amgylch y darpar athro' isod yn Ffigwr 1. Mae'r cymorth a gynigir yn anffurfiol, er enghraifft, sgwrs, yn dilyn gwers, gydag athro dosbarth/mentor pwnc, ac yn ffurfiol, er enghraifft, sesiwn datblygu proffesiynol ar bolisi ymddygiad yr ysgol lleoliad, a gyflwynir gan yr Uwch Fentor.

O bryd i'w gilydd, noda darpar athro ei hun/eu hunain- neu noda un neu ragor o'r 'tîm o amgylch y darpar athro' – fod arno/i angen cymorth ychwanegol, strwythuredig a mwy dwys. Pryd hynny bydd PDPA yn gweithredu'r cynlluniau cefnogaeth ac yn gweithredu'r broses wrth gefn. Mae llawer o resymau pam y gallai darpar athrawon ddod i fan lle bydd angen gweithredu'r cynlluniau cefnogaeth ac mae'n bwysig nodi **nad yw hyn yn golygu bod methiant wedi'i nodi**. Mae gweithredu'r broses wrth gefn yn caniatáu i ymyriadau gael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd ac yn sicrhau bod y darpar athro yn cael y cyfle gorau i lwyddo, drwy gynllunio camau gweithredu'n amserol a phennu targedau penodol. O ganlyniad, trwy weithio mewn partneriaeth, gellir adfer y sefyllfa'n aml a'i newid yn un o lwyddiant.

Y tîm o amgylch y darpar athro



Ffigwr 1: Y tîm o amgylch y darpar athro

Rolau'r aelodau allweddol sy'n berthnasol i'r ddogfen hon yw:

Mentor Dosbarth/Pwnc	• yn gweithio gyda darpar athrawon yn ddyddiol ; • yn gyfrifol am sicrhau mentora o ansawdd uchel; • yn cefnogi'r darpar athro wrth ddangos safonau Statws Athro Cymwysedig (SAC); • yn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddi, cyd-addysgu, modelu bwriadol ac yn rhoi adborth anffurfiol a ffurfiol; • yn datblygu arbenigedd pwnc a/neu gam.
Uwch Fentor	• mentor profiadol gydag amser dynodedig ar gyfer cefnogi darpar athrawon; • yn gyfrifol am sicrhau mentora a chysondeb asesu o ansawdd uchel ar gyfer SAC ar draws yr ysgol; • yn cydweithio'n agos ag Arweinydd y Rhwydwaith a Thiwtoriaid Prifysgol mewn prosesau sicrhau ansawdd; • yn cynnal prosesau cymedroli mewn achosion proses wrth gefn.
Arweinydd Rhwydwaith	• uwch aelod o staff yn yr Ysgol Bartner Arweiniol yn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer datblygu athrawon myfyrwyr yn y rhwydwaith; • yn gweithio'n agos gyda Thiwtor y Brifysgol (Proffesiynol) ac Uwch Fentoriaid; • yn sicrhau ansawdd ar draws y rhwydwaith; • yn cynnal prosesau cymedroli mewn achosion proses wrth gefn.
Tiwtor Personol	• tiwtor personol a enwir gan y brifysgol ar gyfer darpar athro; • y cyswllt cyntaf am bryderon bugeiliol; • yn cyfarfod yn rheolaidd â darpar athrawon mewn grŵp tiwtor personol; • yn mynd i 'Gyfarfod Pryderon' ar gyfer diffyg cynnydd academiaidd; • yn monitro'r broses wrth gefn.
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	• tiwtor wedi'i enwi sy'n gysylltiedig â rhwydwaith ac sy'n gweithredu'n bont rhwng y brifysgol/ysgol a'r gwrthwyneb; • yn gyfrifol am gefnogi darpar athrawon o fewn gweithgareddau PAP • yn gweithio gyda'r Uwch Fentoriaid a'r Arweinwyr Rhwydwaith mewn gweithgareddau sicrhau ansawdd; • yn cymryd rhan ac yn cynnal trosolwg ar y broses wrth gefn.
Cymorth Partneriaeth	• tîm gweinyddol sy'n cefnogi PDPA • 01267 676914 • partneriaeth@pcydds.ac.uk
Cymorth Gwasanaethau Myfyrwyr	• tîm yn y brifysgol sy'n cynnig cymorth cynhwysfawr i ddarpar athrawon: • 01267 676 767 • gwasanaethaumyfyrwyr@pcydds.ac.uk

Os codir pryderon am ddiogelu ac amddiffyn plant mae PDPA yn cadw'r hawl i ddiystyru'r holl brosesau ymyrraeth a chymorth ac i ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym Mholisi Diogelu Y Drindod Dewi Sant.

Llesiant darpar athrawon

Os nodir pryderon am lesiant darpar athrawon, rhaid rhoi gwybod i'r brifysgol ar unwaith dros y ffôn neu drwy anfon neges e-bost i'r Swyddfa Bartneriaeth. Dyma'r manylion cyswllt:

Ffôn: 01267 676914

E-bost: partneriaeth@pcydds.ac.uk

Dylai'r person sy'n gwneud yr atgyfeirio ofyn am gysylltu â'r Tiwtor Personol. Gellid dangos enghreifftiau o broblemau ynghylch lles drwy'r canlynol:

- hwyliau isel neu dristwch parhaus;
- colli diddordeb;
- blinder neu egni isel;
- canolbwytio'n wael;
- hunanhyder isel;
- cynnwrf neu arafu symudiadau.

Nid rhestr derfynol yw hon a dylid gweithredu ar unrhyw newid mewn ymddygiad sy'n codi pryder.

Os yw'r pryderon yn fwy sylweddol, cysylltwch hefyd â **Chymorth Gwasanaethau Myfyrwyr** lle gellir cael cyngor ar unwaith. Dyma'r manylion cyswllt:

Ffôn: 01267 676 767

E-bost: gwasanaethaumyfyrwyr@pcydds.ac.uk

Yn ogystal, cyflwynir holl fyfyrwyr Y Drindod Dewi Sant i **Togetherall**, **adnodd cymorth iechyd meddwl ar-lein mynediad 24/7**.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod pob myfyriwr yn gallu cael cymorth pan fydd ei angen a'u grymuso i wella eu llesiant drwy fod yn weithredol eu hagwedd at wella iechyd meddwl.

Mae Togetherall yn cynnig

- sgiliau ymarferol i helpu myfyrwyr i deimlo'n well a mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion.
- defnyddio rhwydweithiau cyfoedion i drafod materion gyda phobl sydd â phroblemau tebyg
- defnyddio offer hunanasesu i fonitro cynnydd
- ymuno â chyrsgiau grŵp a thrafodaeth ar faterion cyffredin megis meddwl negyddol a straen

Sut i gyfeirio darpar athrawon:

1. Ewch i [Togetherall.com](https://www.togetherall.com)
2. Cliciwch ar Ymuno â ni, ac o dan Sefydliad dewiswch Brifysgolion a Cholegau o'r gwymplen
3. Cofrestrwch â'ch cyfeiriad e-bost Y Drindod Dewi Sant
4. Dewiswch enw defnyddiwr anhysbys

Ysgogi'r broses wrth gefn

Gall y broses wrth gefn gael ei ysgogi gan unrhyw berson o'r tîm o amgylch y darpar athro, gan gynnwys y darpar athro ei hun/eu hunain.

Y Darpar Athro

Os bydd darpar athro yn cydnabod bod ganddo/i/ŷnt bryderon am eu cynnydd eu hunain, naill ai o ran safonau academiaidd neu wrth gyrraedd y Safonau Addysgu Proffesiynol, gall/ant ysgogi'r broses wrth gefn yn fodd o nodi cymorth ychwanegol.

Yn achos safonau academiaidd, fel arfer gwnelid hyn trwy drafodaeth gyda'r Tiwtor Personol, a chyfrifoldeb y Tiwtor Personol yw monitro'r sefyllfa a hysbysu'r staff priodol.

Yn achos Safonau Addysgu Proffesiynol, fel arfer gwnelid hyn drwy drafodaeth gyda'r Tiwtor Proffesiynol, a'i gyfrifoldeb/chyfrifoldeb ef/hi yw monitro'r sefyllfa a hysbysu staff priodol.

Y Tiwtor Personol (Tiwtor Cwricwlwm y Brifysgol)

Fel arfer codir yr angen am ymyrraeth a chymorth oherwydd un o'r rhesymau hyn:

- mae darpar athro yn methu aseiniadau academiaidd yn gyson;
- diffyg presenoldeb/prydlondeb;
- diffyg ymddygiad proffesiynol gyda staff a/neu gyd-ddarpar athrawon.

I ddechrau, dylid trafod y mater yn anffurfiol gyda'r darpar athro, yr arweinydd modwl a'r Tiwtor Personol. Gall y camau gweithredu gynnwys atgyfeirio at wasanaethau myfyrwyr.

Os yw'r problemau'n parhau, dylid trefnu **Cyfarfod** ffurfiol â'r canlynol:

- y darpar athro ac eiriolwr os dymunir;
- y Tiwtor Personol;
- Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC)

Dylid dogfennu'r cyfarfod hwn a nodi'r camau gweithredu a'r amserlenni y cytunir arnynt. Gall cymorth ac ymyrraeth gynnwys atgyfeirio at Wasanaethau Myfyrwyr a chymorth i barhau, trosglwyddo i raglen wahanol neu dynnu'n ôl o astudiaeth yn y brifysgol. Dylai diddordeb gorau'r darpar athro fod yn ganolbwynt i'r cyfarfod hwn, wrth gydnabod yr angen i wneud cynnydd boddhaol ar raglen astudio.

Dylid monitro unrhyw gamau parhaus a'u dogfennu gan y Tiwtor Personol.

Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a/neu Arweinydd y Rhwydwaith/Uwch Fentor/Dosbarth/Mentor Pwnc

Fel arfer, mae angen ysgogi'r broses wrth gefn o ganlyniad i resymau, drwy brosesau monitro arferol, lle cydnabyddir bod y darpar athro mewn perygl o beidio â chyrraedd y Safonau Addysgu Proffesiynol. Er enghraifft:

- nid yw darpar athro yn gwneud y cynnydd disgwyledig o ran y Safonau Addysgu Proffesiynol, er gwaethaf cymorth mentora dros amser;
- ni all darpar athro ddangos ei bod/fod yn bodloni'r Safonau Addysgu Proffesiynol, trwy fethu â gweithredu ar gyngor;

- mae darpar athro yn methu â dangos lefel uchel o ymddygiad personol a phroffesiynol yn yr ysgol a/neu'r brifysgol.

Unwaith eto, i ddechrau ac yn dibynnu ar y materion, dylai'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) a/neu Arweinydd y Rhwydwaith/Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc gyfarfod â'r darpar athro i drafod y materion a cheisio ateb. Gall hyn gynnwys atgyfeirio at Wasanaethau Myfyrwyr.

Yn dilyn y cyfarfod hwn dylid rhoi gwybod i Diwtor y Brifysgol (Proffesiynol) ac Arweinydd y Rhwydwaith am gamau gweithredu a'r amserlenni y cytunwyd arnynt. Dylid hefyd anfon e-bost at y Tiwtor Personol drwy'r Swyddfa Bartneriaeth.

Os yw'r materion yn parhau y tu hwnt i'r amserlen y cytunwyd arni, dylid ysgogi'r broses wrth gefn ar yr adeg briodol.

Camau'r broses wrth gefn

Dylai camau'r broses wrth gefn ddechrau bob amser gyda Cham 1 a chael eu dogfennu bob amser gydol y cyfnod. Hefyd, dylid dod i farn broffesiynol ynglŷn â'r camau gweithredu a'r amserlenni ar sail yr egwyddor o roi'r cyfle gorau i'r darpar athro lwyddo.

Cam yn y Broses	Pwy i'w hysbysu	Beth i'w wneud	Camau gweithredu
Cam 1 : Codi pryder cychwynnol deialog broffesiynol gefnogol Cyfarfod â'r darpar athro i drafod a dogfennu pryderon.	Yn achos pryderon yn y brifysgol , rhwch wybod i'r Tiwtor Personol drwy e-bost uniongyrchol neu drwy'r Swyddfa Bartneriaeth. Yn achos pryderon yn yr ysgol , hysbyswch (drwy'r e-bost neu yn bersonol) y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor, a'r Arweinydd Rhwydwaith.	Cytuno ar strategaethau, targedau a phrydlondeb a fydd yn adfer y sefyllfa ac yn sicrhau cynnydd. Gall strategaethau gynnwys cyd-addysgu, hyfforddi a chefnogi gyda chynllunio a dewisiadau addysgiadol.	Cofnodi'r pryderon, y camau gweithredu a'r targedau ar Gynllun Cefnogaeth Cam 1.
Adolygiad o Gynllun Cefnogaeth Cam 1	Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith a Thiwtor Personol yn cael gwybod am ganlyniad Cam 1.	Cwrdd â'r darpar athro a'r staff perthnasol i adolygu Cynllun Cefnogaeth Cam 1. Mae'r darpar athro yn cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod y targedau	Os yw'r dystiolaeth yn cefnogi cyflawniad a chynnydd, gellir dod â Cham 1 wrth gefn i ben. Ailddechrau'r monitro ac olrhain cynnydd arferol

		a'r camau wedi eu bodloni.	Os na ddangosir cyflawniad a chynnydd, mae'r darpar athro yn symud ymlaen i Gam 2
Cam 2. Cynllun cefnogaeth wrth gefn	Cwblheir dogfennau wrth gefn a'u he-bostio at y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol), yr Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith a Swyddfa'r Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol.	Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn bodloni'r darpar athrawon i bennu targedau diwygiedig – dylai'r rhain fod yn glir gyda chmau wedi'u nodi'n glir i gefnogi cyflawniad. (gweler Atodiad 1) Mae cyfnod o amser y cytunwyd arno wedi ei bennu i'r darpar athro ganolbwyntio ar gyflawni'r targedau wrth gefn.	Pennir cyfnod o amser y cytunir arno i'r darpar athro ganolbwyntio ar gyflawni'r targedau wrth gefn. Dylai pob cyfarfod ac arsylwadau adolygu dilynol ganolbwyntio'n unig ar y targedau wrth gefn a dylid nodi dyfarniadau ar y cynllun cefnogaeth wrth gefn.
Adolygiad o Gynllun cefnogaeth Cam 2	Yn dilyn y cyfnod y cytunwyd arno , mae'r darpar athro, y Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn adolygu'n ffurfiol y targedau wrth gefn gan ddefnyddio'r ystod lawn o dystiolaeth. Ar hyn o bryd, gellir galw ar Arweinydd y Rhwydwaith at ddibenion cymedroli neu gall adolygu'r dystiolaeth yn rhan o'r prosesau sicrhau ansawdd.	O'r drafodaeth hon, daw penderfyniad yn unol â'r canlyniadau posibl hyn: 1. Mae'r broses wrth gefn yn dod i ben a'r monitro arferol yn ailddechrau – dangoswyd tystiolaeth o gynnydd digonol o ran y targedau wrth gefn; 2. Estynnir y broses wrth gefn – ar sail tystiolaeth o gyflawniad rhannol y targedau wrth gefn ond tystiolaeth ddigonol o dystiolaeth o ddilyniant. Cytunir ar y cyfnod ymestyn a threfnir pwynt adolygu pellach. Oni bai fod amgylchiadau eithriadol,	Caiff canlyniadau'r adolygiad eu he-bostio gan Diwtor y Brifysgol (Proffesiynol) i'r Swyddfa Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol.

		dim ond unwaith y gellir estyn y broses wrth gefn; 3. Methiant o'r broses wrth gefn - os bydd cynnydd annigonol, daw'r Profiad Addysgu Proffesiynol i ben ar unwaith a'i ddogfennu'n fethiant. Mae'r darpar athro yn mynd ymlaen i Gam 3.	
Cam 3. Proses wrth gefn aflwyddiannus Hysbysiad o ganlyniad:	Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn hysbysu'r darpar athro yn ysgrifenedig am Brofiad Addysgu Proffesiynol aflwyddiannus ynghyd â'r rheswm a'r broses sydd wedi'i dogfennu.	Anfonir copi o'r ohebiaeth hon i'r Swyddfa Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol a'r Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Phroffesiynol (SAC).	Pryd hynny, mae'r broses wrth gefn yn asio â gweithdrefn Y Drindod Dewi Sant ar gyfer 'Cynnydd Anfoddhaol ar Raglen Astudio' a/neu 'Addasrwydd i Ymarfer' (Llawlyfr Ansawdd Academaidd). Mae hyn yn cynnwys y camau nesaf a gallu'r Bwrdd Arholi i gynnig ailsefyll os bernir ei fod er budd gorau'r darpar athro. Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn cyfleu pwyntiau allweddol canlyniadau'r bwrdd arholi i Arweinydd y Rhwydwaith, yr Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc

Mynd ymlaen – y Profiad Dysgu Proffesiynol nesaf

Er mwyn bod yn gefnogol, os bydd y broses wrth gefn wedi'i datrys yn llwyddiannus, h.y. bod digon o gynnydd wedi'i wneud a bod pob targed sy'n ymwneud â'r broses wedi'u bodloni, dylai'r darpar athro ddechrau'r Profiad Addysgu Proffesiynol nesaf gyda dechrau newydd. Os nad yw'r broses wrth gefn wedi'i datrys yn llwyddiannus, bydd hyn yn parhau i'r Profiad Addysgu Proffesiynol nesaf a chyfarfod 'trosglwyddo/pontio' yn cael ei gynnal rhwng y darpar athro, y Tiwtor Proffesiynol, yr Arweinydd Rhwydwaith, yr uwch fentor presennol a'r uwch fentor newydd fel bod y targedau a'r camau gweithredu yn glir i bob parti. Hyrwyddir y cyfarfod yma gan Arweinydd y Rhwydwaith.

Methiant Profiad Addysgu Proffesiynol

Ar adegau prin, efallai y bydd rhesymau eraill pam na fydd modd, o bosibl, i ddarpar athro barhau mewn lleoliad Profiad Addysgu Proffesiynol. Er enghraifft:

- bod yr addysgu a'r cyfleoedd dysgu yn gyfyngedig oherwydd absenoldeb y Mentor Dosbarth/Pwnc;
- o ganlyniad i Arolygiad gan Estyn bod yr ysgol wedi ei gosod dan fesurau arbennig ac nad yw bellach yn amgylchedd hyfforddi addas;
- am ryw reswm neu'i gilydd, bod perthnasoedd gwaith proffesiynol wedi dirywio i lefel lle newid lleoliad yw'r opsiwn gorau;
- bod amgylchiadau iechyd, cymdeithasol, economaidd neu deuluol yn dod i ran darpar athro sy'n golygu mai torri ar draws astudiaethau yw'r opsiwn gorau.

Ym mhob achos y rhoddir eu manylion uchod dylid cynnull **Cyfarfod** sy'n cynnwys y darpar athro, yr Uwch Fentor, yr Arweinydd Rhwydwaith a'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol).

Yn achos pwyntiau bwled 1, 2 a 3, dylai'r darpar athro gael ei osod yn ddelfrydol mewn ysgol arall yn y rhwydwaith.

Os nad yw hyn yn bosib, dylid lleoli ysgol o fewn rhwydwaith cyfagos - gan ganolbwyntio bob amser ar roi'r cyfle gorau i'r darpar athro lwyddo.

Atodiad

Pennu targedau wrth gefn, taenlen, amserlen awgrymedig, dogfennau, Llinynnau Canolog a Cynnydd disgwylidig.

Pennu targedau wrth gefn


Mae angen i'r targedau a bennir ar gyfer darpar athrawon sy'n rhan o'r broses wrth gefn gynnwys y pwyntiau hyn:

- rhaid cysylltu targedau'n benodol â'r meysydd sy'n peri pryder ac sy'n atal disgyblion rhag gwneud cynnydd;
- rhaid cyfeirnod i'r targedau'n llawn at y Safonau Addysgu Proffesiynol;
- mae angen nodi camau gweithredu clir fel y gall y darpar athro ddychmygu'r ffordd ymlaen a magu hyder;
- rhaid i adolygiad o dargedau gynnwys yr ystod lawn o dystiolaeth heb fod yn seiliedig ar arsylwadau un wers yn unig;
- mae'n rhaid cyfyngu ar nifer y targedau fel nad yw'r darpar fyfyrwr wedi ei lethu ac yn y sefyllfa orau i lwyddo.

Mae model awgrymedig ar gyfer pennu targedau wedi'i addasu o Fletcher-Wood (2016):

- ✓ **Clod** – beth mae'r darpar athro wedi ei wneud yn arbennig o dda?
- ✓ **Archwilio** – ar ba agwedd o addysgu a dysgu ydw i am ganolbwyntio? Beth sylwodd y darpar athro am yr agwedd honno?
- ✓ **Targed Penodol** - beth ydw i am i'r darpar athro newid am ei (h)addysgu?
- ✓ **Ymarfer/Atgyfnerthu/Cynllunio** – sut gallwn ni droi'r syniad hwn o newid yn realiti?

Taenlen sy'n dangos y broses wrth gefn



Amserlen Awgrymedig ar gyfer Cyrraedd Targedau

Yn rhan o'r Broses Wrth Gefn, mae'n bwysig bod y darpar athro a'i fentor yn cytuno ar amserlen glir ar gyfer cyrraedd targedau gosod. Dylid defnyddio barn broffesiynol, gan ystyried y darpar athro unigol a'i amgylchiadau. Fodd bynnag, nodir bod angen rhagor o amser i gyrraedd targed/targedau sy'n gysylltiedig â rhai Safonau Proffesiynol nag eraill, er enghraifft, mae targedau sy'n gysylltiedig ag addysgu a dysgu yn debygol o gymryd rhagor o amser i'w cyrraedd na'r rhai sy'n gysylltiedig â phresenoldeb/prydlondeb. Gellir defnyddio'r amserlen ganlynol yn ganllaw:

Safon Broffesiynol	Amserlen Awgrymedig ar gyfer Cyrraedd Targedau a Bennwyd
Addysgeg	Dau gylchdro llawn o amserlen y darpar athro. Mewn ysgol gynradd, gall hyn fod yn bythefnos; fodd bynnag, gan fod llawer o ysgolion uwchradd yn gweithredu amserlen bythefnos, gall fod yn bedair wythnos mewn ysgol uwchradd.
Arweinyddiaeth	Un wythnos, neu erbyn y digwyddiad calendr nesaf os yw'r targed, er enghraifft, yn gysylltiedig â chyfrifoldeb corfforaethol a phresenoldeb mewn cyfarfodydd staff/nosweithiau rhieni/ac ati.
Dysgu Proffesiynol	Wythnos arall, er efallai y bydd angen pythefnos i dair wythnos os yw'r targed yn gysylltiedig â datblygu a defnyddio sgiliau iaith Gymraeg.
Arloesedd	Un cylchdro llawn o amserlen y darpar athro; Fodd bynnag, os yw'r targed yn gysylltiedig â gwerthuso effaith newid yn ymarferol, efallai y bydd angen tair i bedair wythnos fel y gellir casglu tystiolaeth briodol.
Cydweithio	Un cylchdro llawn o amserlen y darpar athro; Fodd bynnag, os oes cysylltiad rhwng y targed a'r gallu i alluogi gwelliant, efallai y bydd angen tair i bedair wythnos fel y gellir casglu'r dystiolaeth briodol.

Dim ond amserlen **awgrymedig** yw'r uchod ac nid oes angen cadw ati'n gaeth – barn broffesiynol ddylai gael y flaenoriaeth bob tro. Mae'n bwysig cofio hefyd y gall sgysiau anffurfiol am gynnydd o ran y targedau ddigwydd cyn yr adolygiadau ffurfiol. Felly, os bwriedir cynnal yr adolygiad ffurfiol bedair wythnos ar ôl Cam 1 neu Gam 2 oherwydd, er enghraifft, bod y targed(au) yn gysylltiedig â dysgu ac addysgu, gellir trafod cynnydd o ran y targedau o hyd yn rhan o gyfarfodydd mentoriaid, ac ati yn ystod yr wythnosau cyn yr adolygiad ffurfiol. Bwriad y broses wrth gefn yw cefnogi'r darpar athro a sicrhau ei fod/bod yn cael y cyfle gorau i lwyddo a dylai'r egwyddor hon gael y lle amlycaf ym mhob trafodaeth.

Cam 1: Codi Pryder(on) Cychwynnol

Darpar athro:

Ysgol Lleoliad:

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Uwch Fentor:

Arweinydd Rhwydwaith

Tiwtor Prifysgol
(Proffesiynol):

Nodwyd bod angen cymorth ac ymyrraeth benodol ar y maes/meysydd canlynol o ran eich cynnydd proffesiynol:

Blaenoriaeth	Maes pryder	Tystiolaeth
1		
2		
3		
4		
5		

Asesir eich cynnydd presennol o ran y Safonau Addysgu Proffesiynol yn y modd hwn:

Safon broffesiynol	Rhagori ar ddisgwyliadau	Ar y trywydd iawn	Heb fod ar y trywydd iawn eto	Achos Pryder
Addysgeg				
Arweinyddiaeth				
Dysgu proffesiynol				
Arloesedd				
Cydweithio				

Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd yn dangos y cynnydd sydd ei angen i adfer y safonau hynny sydd heb fod ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. Yn Adolygiad Cam 1, dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos bod digon o gynnydd wedi'i gyflawni.

Cam 1 Rhestr Wirio: Mentor Dosbarth/Pwnc

Ydych chi wedi:

Llenwi'r ffurflen Cam 1 wrth gefn, gan ddangos yn glir feysydd y mae arnynt angen cymorth ac ymyrraeth benodol, a darparu tystiolaeth am y pryderon?		
Gweithio gyda'r darpar athro i baratoi cynllun gweithredu, nodi'n glir y camau sydd eu hangen i adfer safonau nad ydynt eto ar y trywydd iawn, gan gynnwys ymyriadau cefnogol, er enghraifft, cynllunio ar y cyd, cyd-addysgu, ac ati?		
Trafodwyd gyda'r darpar athro'r mathau o dystiolaeth sydd eu hangen i ddangos cynnydd digonol?		
Pennu dyddiad ar gyfer Adolygiad Cam 1?		
Sicrhau bod pob parti oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copïau o ddogfennaeth at yr unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	

Cam 1: Codi Pryder(on) Cychwynnol – Cynllun Cefnogaeth

Dyddiad:

Targedau - at beth ydw i'n anelu?	Camau - beth y mae angen i mi ei wneud i sicrhau cynnydd?	Ymyrraeth Gefnogol	Amserlen – erbyn pryd?	Angen tystiolaeth i ddangos cynnydd

Llofnod y Darpar Athro:

Llofnod y Mentor Dosbarth/Pwnc:

Adolygiad o Gynllun Cefnogaeth Cam 1

Darpar athro:

Ysgol Lleoliad:

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Uwch Fentor:

Arweinydd Rhwydwaith

Tiwtor Prifysgol
(Proffesiynol):

Dyddiad yr adolygiad:

Canlyniad yr adolygiad:

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd, aseswyd y cynnydd yn y modd canlynol (ticiwch):

Tystiolaeth Digonol	Tystiolaeth Annigonol
Gellir cwblhau'r broses wrth gefn Cam 1, ac ailddechrau'r broses monitro ac olrhain cynnydd arferol.	Ymlaen i broses wrth gefn Cam 2

Llofnod y Darpar Athro:

Llofnod y Mentor Dosbarth/Pwnc:

Rhestr Wirio Adolygu: Mentor Dosbarth/Pwnc

Ydych chi wedi:

Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol â'r darpar athro ac adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd?	
Gweithio gyda'r darpar athro wrth gydnabod a fu cynnydd digonol neu annigonol?	
Trefnu dyddiad ar gyfer llunio Cynllun cefnogaeth wrth gefn Cam 2 (os bydd angen)?	
Sicrhau bod pob parti oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?	
Anfon copiâu o ddogfennaeth i'r unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)
	Uwch Fentor
	Arweinydd Rhwydwaith
	Tiwtor Prifysgol (proffesiynol)

Adolygu Cynllun Cefnogaeth Cam 1

Targed	Tystiolaeth a ddarparwyd i ddangos cynnydd digonol	Ie	Nage

Cam 2: Cwblhau Cynllun Cefnogaeth Wrth Gefn

Darpar athro:

Ysgol Lleoliad:

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Uwch Fentor:

Arweinydd Rhwydwaith

Tiwtor Prifysgol
(Proffesiynol):

Deialog Broffesiynol Gefnogol: Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu Arweinydd y Rhwydwaith/Uwch Fentor a Mentor Dosbarth/Pwnc yn cwrdd â'r darpar athro i bennu targedau diwygiedig. Dylai'r rhain fod yn eglur gyda chmau gweithredu wedi eu nodi'n glir i gefnogi cyflawniad. (Gweler yr Atodiad)

Dylai pob cyfarfod ac arsylwadau adolygu dilynol **ganolbwyntio yn unig ar y targedau wrth gefn** a dylid nodi'r dyfarniadau ar y cynllun cefnogaeth wrth gefn.

Cofnod Presenoldeb ar gyfer Cyfarfod Cam 2

Dyddiad:

	Enw mewn prif lythrennau	Llofnod
Darpar Athro		
Mentor Dosbarth/Pwnc		
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)		
Uwch Fentor		

Rhestr Wirio Cam 2: Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) neu Arweinydd Rhwydwaith/Uwch Fentor

Ydych chi wedi:

Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol â'r darpar athro, y Mentor Dosbarth/Pwnc a/neu'r Arweinydd Rhwydwaith/Uwch Fentor/Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)?		
Gweithio gyda'r darpar athro wrth ddiwygio'r targedau, y camau gweithredu a'r dystiolaeth sydd eu hangen i wneud cynnydd digonol er mwyn adfer y sefyllfa		
Cytuno ar ddyddiadau adolygu ar gyfer targedau'r cynllun cefnogaeth?		
Sicrhau bod pob parti sy'n bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copïau o ddogfennaeth at yr unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partnership@pcydds.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	

Cam 2: Cynllun Cefnogaeth Wrth Gefn

Targedau Diwygiedig – at beth ydw i'n anelu?	Camau - beth y mae angen i mi ei wneud i sicrhau cynnydd?	Ymyrraeth Gefnogol	Amserlen – pwyntiau adolygu	Y dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos cynnydd

Llofnod y Darpar Athro:

Llofnod Arweinydd Rhwydwaith:

Llofnod Mentor Dosbarth/Pwnc:

Llofnod Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol):

Adolygiad Ffurfiol o Gynllun Cefnogaeth Wrth Gefn Cam 2

Darpar Athro:

Ysgol Lleoliad:

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Uwch Fentor:

Arweinydd Rhwydwaith

Tiwtor Prifysgol
(Proffesiynol):

Adolygiad Ffurfiol: Yn dilyn y cyfnod amser y cytunwyd arno, bydd y darpar athro, Tiwtor Prifysgol (Professional) neu Arweinydd Rhwydwaith/Uwch Fentor, a'r Mentor Dosbarth/Pwnc yn adolygu'n ffurfiol y targedau wrth gefn, gan ddefnyddio'r ystod lawn o dystiolaeth.

Canlyniad yr Adolygiad:

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddarparwyd, aseswyd y cynnydd yn y modd hwn (ticiwch opsiwn canlyniad):

Opsiynau Canlyniad	Ticiwch
Gwnaed cynnydd digonol a chyflawnwyd y targedau. Mae'r broses wrth gefn wedi dod i ben. Mae monitro ac olrhain cynnydd yn ailddechrau.	
Gwnaed cynnydd digonol, a ddangosir drwy gyflawni'r targedau'n rhannol. Ystyrir bod cyfnod ymestyn i Gam 2 yn briodol a chytunir arno.	
Does dim digon o gynnydd wedi'i wneud a dydy'r darpar athro ddim ar y trywydd i fodloni'r Safonau Addysgu Proffesiynol ar gyfer SAC. Mae angen i'r broses wrth gefn symud ymlaen i Gam 3.	
Ni ellir cytuno ar benderfyniad ac mae angen adolygiad cymedroli gan Arweinydd Rhwydwaith neu Diwtor y Brifysgol (Proffesiynol).	

Cofnod Presenoldeb ar gyfer Dyddiad Cyfarfod Adolygu:

	Enw mewn prif lythrennau	Llofnod
Darpar athro		
Mentor Dosbarth/Pwnc		
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)		
Uwch Fentor		

Rhestr Wirio Cam 2: Tiwtor Prifysgol (proffesiynol) neu Uwch Fentor

Ydych chi wedi:

Cymryd rhan mewn deialog broffesiynol â'r darpar athro ac adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd?	
Gweithio gyda'r darpar athro wrth nodi a fu cynnydd digonol neu annigonol?	
Cytuno ar ganlyniad gyda gweithredoedd priodol e.e. dod â'r Broses Wrth Gefn i ben, cytuno ar estyniad amser a dyddiad adolygu dilynol, neu symud ymlaen i Gam 3?	

Sicrhau bod pob parti a oedd yn bresennol yn y cyfarfod wedi llofnodi'r ddogfen?		
Anfon copiâu o ddogfennaeth at yr unigolion hyn?	Tiwtor Personol (partneriaeth@pcydd.ac.uk)	
	Uwch Fentor	
	Arweinydd Rhwydwaith	
	Tiwtor Prifysgol (proffesiynol)	

Adolygiad o Gynllun Cefnogaeth Cam 2

Targed	Tystiolaeth a ddarparwyd i ddangos cynnydd digonol	Ie	Nage

Cam 3: Proses Wrth Gefn Aflwyddiannus – Hysbysiad o Ganlyniad

Hysbysiad o ganlyniad: Gan ddefnyddio'r templed PDPA y cytunwyd arno, mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn hysbysu'r darpar athro yn ysgrifenedig o Brofiad Addysgu Proffesiynol aflwyddiannus ynghyd â'r rheswm a'r broses wedi'i dogfennu. Caiff y darpar athro ei dynnu'n ôl o'r Profiad Addysgu Proffesiynol, a'i (h)asesu yn brofiad aflwyddiannus.

Anfonir copi o'r ohebiaeth hon i'r Swyddfa Bartneriaeth at sylw'r Tiwtor Personol ac Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC)

Mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn cyfarfod â'r Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC) a'r Tiwtor Personol ar gyfer cyfarfod briffio ac adolygu'r drefn briodol.

Ar hyn o bryd, mae'r broses Wrth Gefn yn asio â gweithdrefn Y Drindod Dewi Sant ar gyfer:

- Cynnydd anfoddhaol ar Raglen astudio;
- a/neu'r Polisi Addasrwydd i Ymarfer.

Mae hyn yn cynnwys y camau nesaf a gallu'r Bwrdd Arholi i gynnig cyfle i ailsefyll os bernir hynny er budd gorau'r darpar athro.

Ar adeg briodol, mae'r Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) yn cyfleu pwyntiau allweddol canlyniadau'r Bwrdd Arholi i Arweinydd y Rhwydwaith, Uwch Fentor a Mentor Dosbarth/Pwnc.

Sicrwydd Ansawdd

Astudiaeth Achos: Dylid adolygu proses Wrth Gefn Cam 3 aflwyddiannus o fewn ac ar draws rhwydweithiau mewn cyfarfod Arweinwyr Rhwydwaith priodol.

Dylid cyfeirio pob ymholiad arall ynghylch y broses hon at Laurence Thomas yn laurence.thomas@pcydds.ac.uk

Hysbysiad o ganlyniad: Profiad Addysgu Proffesiynol Aflwyddiannus

Darpar athro:

Ysgol Lleoliad:

Mentor Dosbarth/Pwnc:

Uwch Fentor:

Arweinydd Rhwydwaith

Tiwtor Prifysgol
(Proffesiynol):

Diben y ffurflen hon yw rhoi hysbysiad nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud a bod y darpar athro wedi symud ymlaen i Gam 3 sy'n golygu bod y profiad addysgu proffesiynol wedi'i fethu.

Rheswm/Rhesymau am y broses wrth gefn aflwyddiannus:

-
-
-

Adlewyrchir hyn yn y broses a ddogfennwyd (Cam 1 a Cham 2) sydd wedi'i rhannu'n flaenorol â'r darpar athro, Mentor Dosbarth/Pwnc, Arweinydd Rhwydwaith, Uwch Fentor a Thiwtor Prifysgol (Proffesiynol).

Camau nesaf:

Cam Gweithredu	Person sy'n gyfrifol	Cyflawnwyd (Ticiwch)
Anfon copi o'r ohebiaeth hon i'r Swyddfa Bartneriaeth (partnership@pcydds.ac.uk) at sylw'r Tiwtor Personol a'r Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC)	Arweinydd Rhwydwaith	
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) i drefnu cyfarfod â'r Arweinydd Strategaeth Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC) a'r Tiwtor Personol ar gyfer cyfarfod briffio ac i adolygu'r broses ddyledus.	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	
Y darpar athro i gael gwybod am yr argymhelliad sydd i'w roi yn y Bwrdd Arholi nesaf (mae hyn yn cynnwys y camau nesaf a chasiti'r Bwrdd Arholi i gynnig cyfle i ailsefyll os bernir ei fod er budd gorau'r myfyriwr).	Arweinydd Strategol Partneriaeth PDPA, Cydweithio a Safonau Proffesiynol (SAC)	
Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol) i gyfleu prif bwyntiau canlyniadau'r Bwrdd Arholi i Arweinydd y Rhwydwaith, i'r Uwch Fentor a'r Mentor Dosbarth/Pwnc.	Tiwtor Prifysgol (Proffesiynol)	

Llinynnau Canolog**Addysgeg (Mireinio Addysgu):**

Add 1	Addysgeg	Rheoli'r amgylchedd dysgu	Mae'r athro'n deall pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu yn y gwaith o hyrwyddo arferion ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol sy'n cyd-fynd â'r pedwar diben ac y mae dysgwyr yn eu deall yn y cyd-destun hwnnw. Mae felly'n mynd ati i'w ymsefydlu a'i reoli'n effeithiol ac yn barhaus.
Add 2	Addysgeg	Gwahaniaethu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am, ynghyd â dealltwriaeth a phrofiad o, ddisgwyliadau uchel ac arferion effeithiol i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gwahanol anghenion.
Add 3	Addysgeg	Asesu	Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu

Addysgeg (Hyrwyddo Dysgu):

Add 6	Addysgeg*	Pedwar diben i ddysgwyr	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n gyrru profiadau dysgwyr.
Add 8	Addysgeg	Ymelwa ar ddisgyblaethau pynciol mewn meysydd dysgu	Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am addysgeg a disgyblaethau perthnasol o fewn, ac ar draws, cynnwys pynciau, meysydd dysgu, a themâu trawsgwricwlaidd; mae hefyd yn arddangos dealltwriaeth o hyn ac yn cynllunio'n briodol yn ôl hynny.

Cydweithredu:

C2	Cydweithredu	Ceisio cyngor a chymorth	Mae'r athro'n mynd ati i geisio ac ymwneud â chefnogaeth o ystod ffynonellau ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi a dysgu fel tîm, ac arddangos mwy a mwy o annibyniaeth.
----	--------------	--------------------------	---

Dysgu Proffesiynol:

DP1	Dysgu Proffesiynol	Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil	Mae'r athro'n arddangos dealltwriaeth gynyddol hyderus o'r damcaniaethau a'r ymchwil ynghylch asesu, addysgeg, datblygiad plant a'r glasoed, a dysgu sy'n berthnasol i gynllunio ac arferion o ddydd i ddydd.
DP4	Dysgu Proffesiynol	Sgiliau Cymraeg	Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

Arweinyddiaeth:

Ar1	Arweinyddiaeth	Cymryd cyfrifoldeb personol	Mae'r athro'n arddangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol, gan ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol gyda dysgwyr, rhieni/ gofawyr a chydweithwyr, sy'n dangos ymrwymiad personol i'r egwyddorion sylfaenol, sef tegwch a gwneud y mwyaf o botensial pob dysgwr.
Ar2	Arweinyddiaeth	Arfer cyfrifoldeb corfforaethol	Mae'r athro'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau contractiol, bugeiliol, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a phroffesiynol, ac mae'n eu deall.

Cynnydd disgwyliedig yn erbyn Safonau SAC y rhaglen BA			
L i n e ll A m s e r P A P		Cyrhaeddiad Disgwyliedig Ar y Trywydd iawn / Tu Hwnt i Ddisgwyliadau	Rhesymau dros ddechrau'r Broses Wrth Gefn (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
	Diwedd lleoliad BA1	Hanner 5/10 o'r Llinynnau Canolog i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Hanner (5/10) o'r Llinynnau Canolog 'ddim eto ar y trywydd iawn' neu'n 'achos pryder'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf. Ni ddylai myfyrwyr ddim ond cael profiad o'r Llinynnau Canolog	Caiff safonau eraill eu hasesu'n 'achos pryder'
	Diwedd lleoliad BA2	10 Llinyn Canolog 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad dyma'r achos, caiff y darpar athro ei roi ar Gam 1 Cynllun Wrth Gefn a nodir targedau priodol ar gyfer PAP3. Bydd y cynllun wrth gefn yn cael ei ystyried yn y drydedd ysgol lleoliad yn ystod y diwrnodau paratoi. Uwch fentoriaid PAP2 a PAP3 i gwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro.
		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau Addysgeg 'Ar y Trywydd iawn' o leiaf.	
		Mae'r holl llinynnau Cydweithio 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
P A P	Canol lleoliad BA3	Pob safon Addysgeg, Cydweithio a Dysgu Proffesiynol i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf.	Os nad ydynt, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y Cynllun Wrth Gefn a nodi'r targedau priodol.
	Diwedd lleoliad BA3	Rhaid i bob un o'r safonau SAC fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf. (Ffit orau)	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: Os oes un safon ddim 'Ar y Trywydd iawn' bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (Cynllun Cefnogaeth Wrth Gefn – Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academiaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Ar y Trywydd iawn' bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academiaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.

Cynnydd disgwylidig yn erbyn Safonau SAC y rhaglen TAR			
L I n e l A m s e r P A P		Cyrhaeddiad Disgwyliedig Ar y Trywydd iawn / Tu Hwnt i Ddisgwyliadau	Rhesymau dros ddechrau'r Broses Wrth Gefn (Mae angen ystyried amgylchiadau personol pob darpar athro)
	Canol PAP1	Mwyafrif 6/10 o'r Llinynnau Canolog i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad yw hyn yn wir, disgwylir i'r Mentor Dosbarth / Pwnc weithio'n agos gyda'r darpar athro i wneud cynnydd am weddill y PAP yn erbyn unrhyw rai o'r Llinynnau Canolog 'Nad ydynt eto ar y Trywydd iawn'.
		*Gall safonau a llinynnau eraill hefyd fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf. Nid dim ond profiad y dylai myfyrwyr ei gael o'r Llinynnau Canolog	Caiff safonau eraill eu hasesu'n 'achos pryder'.
	Diwedd PAP1	10 Llinyn Canolog 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad dyma'r achos, caiff y darpar athro ei roi ar Gam 1 Cynllun Wrth Gefn a nodir targedau priodol ar gyfer PAP2.
		Rhan fwyaf (2/3) o'r Safonau Addysgeg 'Ar y Trywydd iawn' o leiaf	Bydd y Cynllun Wrth Gefn yn cael ei ystyried yn yr ail ysgol leoliad yn ystod y diwrnodau Paratoi. Uwch fentoriaid PAP1 a PAP2 i gwrdd i drafod cymorth ar gyfer y darpar athro cyn PAP2.
		Pob un o'r llinynnau Cydweithio fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	
	Canol PAP2	Pob safon Addysgeg, Cydweithio a Dysgu Proffesiynol i fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf	Os nad ydynt, rhaid i'r darpar athro gael ei roi ar Gam 1 y Cynllun Wrth Gefn a nodi'r targedau priodol.
	Diwedd PAP2	Rhaid i bob un o'r safonau SAC fod 'ar y trywydd iawn' o leiaf. (Ffit orau)	Yn dibynnu ar broffil y darpar athro, dylid cymryd y camau canlynol: - Os oes un safon ddim 'Ar y Trywydd iawn' bydd y darpar athro'n cwblhau tair wythnos ychwanegol yn yr ysgol. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth/Pwnc lle nodir targedau ar gyfer gweddill y lleoliad (Cynllun Cefnogaeth Wrth Gefn - Cam 1). Caiff y rhain eu hadolygu'n wythnosol drwy gydol y cyfnod o dair wythnos ychwanegol. Petai hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, cyflwynir gradd 'Llwyddo' i'r Bwrdd Arholi ym mis Awst i ganiatáu i'r darpar athro gymhwyso ar gyfer y mis Medi canlynol. Pwynt pwysig i'w nodi yw y gallai hyn olygu nad yw'r darpar athro'n graddio gyda'i gymheiriaid yn ystod tymor yr haf ac y bydd yn hytrach yn cael gwahoddiad i fynychu'r seremoni raddio'r flwyddyn academiaidd ganlynol. Os oes dwy safon neu fwy ddim 'Ar y Trywydd iawn' bydd gofyn i'r darpar athro ailsefyll y lleoliad PAP llawn yn y flwyddyn academiaidd ddilynol. Cyflwynir gradd 'Methu' am y PAP i'r Bwrdd Arholi yn ystod tymor yr haf. Cyn cwblhau'r PAP ychwanegol hwn, bydd y darpar athro'n cael cyfarfod adolygu gyda'r Arweinydd Rhwydwaith, y Tiwtor Proffesiynol a'r Mentor Dosbarth/Pwnc i nodi targedau ar gyfer y cyfnod lleoliad. Fel arfer, bydd disgwyliadau PAP yn cael eu dilyn.

Rheoli Fersiwn Dogfennau
Mehefin 2020

Adolygiad: Mehefin 2021

Diweddarwyd: Tachwedd 2021 (f.4)

Adolygiad nesaf: Mehefin 2022

Diweddarwyd: Rhagfyr 2022 (f.5)

Adolygiad nesaf: Mehefin 2023

Diweddarwyd: Gorffennaf 2023 (f.6)

Diweddarwyd: Medi 2023 (f.7)

Diweddarwyd: Medi 15fed, 2023 (f.8)

